Chartered Institute of Housing Cymru

# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Ddrafft Cymru 2026-2027

Tachwedd 2025



Beth mae angen i chi ei wybod am
# Gyllideb Ddrafft Cymru 2026-2027

Chartered Institute of Housing Cymru

## Cefndir

Ar 3 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2026-2027. Dyma'r gyllideb ddrafft olaf ar gyfer tymor y Senedd hwn. O'r herwydd, ac er mwyn sicrhau parhad i wasanaethau, mae llywodraeth Cymru'n cymhwyso cynnydd chwyddiannol i bob un o'r prif grwpiau gwariant. Mae hyn yn golygu y bydd cyllid refeniw yn codi 2.2 y cant ac y bydd cyllid cyfalaf yn cynyddu dau y cant. Fel y gwelwch yn y nodyn briffio hwn, mae rhai meysydd cyllideb wedi gweld cynnydd uwchlaw chwyddiant fel rhan o ymrwymiadau polisi penodol.

Mae'r gyllideb hon yn darparu £6.98 biliwn o gyllid i lywodraeth leol a thai. Mae hyn yn cynnwys £5.69 biliwn i gyllido adnoddau, £1.21 biliwn mewn cyllid cyfalaf cyffredinol ac £8.2 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer trafodion ariannol

## Ymrwymiad parhaus i dai

Mae'r gyllideb ddrafft wedi darparu £34.9 miliwn ychwanegol i'r grant tai cymdeithasol. Mae'r cyllid ychwanegol hwn yn cynnwys £26.8 miliwn ychwanegol mewn cyfalaf trafodion ariannol i gefnogi benthyciadau i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn adeiladu cartrefi. Cyfanswm y dyraniad cyllideb ar gyfer grantiau tai cymdeithasol yw £445.9 miliwn.

Mae'r gyllideb ddrafft hefyd wedi dyrannu £110 miliwn ar gyfer atgyweiriadau mawr a thaliadau bwlch gwaddol. Darperir £96.9 miliwn ar gyfer datgarboneiddio. Dyrannir £3.7 miliwn mewn cyllid refeniw a £38.25 miliwn mewn cyllid cyfalaf i'r rhaglen cartrefi cynnes.

Mae llywodraeth Cymru'n parhau â'i hymrwymiad i ddiogelwch adeiladau ac yn darparu £4.5 miliwn mewn cyllid refeniw a £130.2 miliwn mewn cyllid cyfalaf. Mae'r ysgrifennydd cyllid hefyd wedi amlinellu y bydd arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r gwasanaeth tân ac achub i'w cefnogi gyda'r gyfundrefn arolygu ehangedig. Er nad yw llinellau gwariant y gyllideb yn darparu ffigur union ar gyfer hyn.

Mae £25.5 miliwn mewn cyllid cyfalaf ar gyfer y rhaglen addasiadau ymateb cyflym. Arian sy'n helpu darparu mân addasiadau fel rampiau a chanllawiau i hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty a byw'n annibynnol.

Mae £28.1 miliwn mewn cyfalaf trafodion ariannol hefyd ar gyfer cymorth i brynu Cymru, i alluogi prynwyr tro cyntaf i fedru perchen ar gartref.

Mae'r adroddiad cyllideb manwl hefyd wedi dyrannu £31 miliwn ychwanegol i ymestyn y cynllun cartrefi gwyrdd drwy fanc datblygu Cymru.

## Cyllid digartrefedd

Mae'r cyllid ar gyfer cymorth ac atal digartrefedd yn £223.86 miliwn. Ymddengys mai dim ond cyfrif am y cynnydd chwyddiannol mewn cyllid refeniw yw'r swm ychydig yn uwch hwn. Nid yw'n glir faint o'r dyraniad hwn sydd ar gyfer y Grant Cymorth Tai a faint sydd ar gyfer y Gronfa Atal Digartrefedd.

Yr hyn sy'n glir, fodd bynnag, yw bod yr ysgrifennydd cyllid wedi amlinellu y bydd £23 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu i dalu costau cychwynnol Bil Digartrefedd a Dyraniadau Tai Cymdeithasol (Cymru). Mae'r arian hwn yn cael ei ddarparu drwy fecanwaith o fewn llinell gwariant cyllideb y Grant Cymorth Refeniw (RSG).

## Cyllid awdurdodau lleol

Bydd cynnydd o £156 miliwn yn y setliad llywodraeth leol. Bydd hyn yn darparu cynnydd cyfartalog o 2.5 y cant ar sail tebyg-am-debyg. Fel na fydd unrhyw awdurdod lleol yn derbyn cynnydd o lai na 2.3 y cant, caiff £8.6 miliwn ychwanegol ei ddarparu.

## Ymrwymiadau cyllidebol eraill

Dyma rai o'r ymrwymiadau cyllidebol eraill:

- £25.5 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer y gronfa rhyddhau tir
- £2.5 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer cronfa'r cynllun gweithredu camddefnyddio sylweddau

- £40.8 miliwn o gyllid adnoddau ar gyfer cynhwysiad ariannol
- £10 miliwn o gyllid adnoddau a £3.1 miliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- £653,000 ar gyfer y rhaglen tlodi tanwydd.

## Barn CIH Cymru

Rydym yn croesawu penderfyniad yr ysgrifennydd cyllid i ddarparu arian ychwanegol i helpu datblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom yn gyflym ac ar raddfa fawr. Rydym hefyd yn croesawu'r cyllid ychwanegol ar gyfer costau cychwynnol Bil Digartrefedd a Dyraniadau Tai Cymdeithasol (Cymru) a'r arwydd yn yr adroddiad cyllideb y bydd y gwasanaeth tân yng Nghymru yn derbyn arian ychwanegol i gefnogi eu cyfundrefn arolygu ehangedig. Arian sy'n hanfodol i weithrediad llwyddiannus y ddau ddarn newydd o ddeddfwriaeth arfaethedig.

Serch hynny, rydym yn siomedig nad yw datgarboneiddio ein cartrefi presennol ond wedi gweld cynnydd chwyddiannol. Fel yr amlinellwyd yn ein maniffesto 'Cynllun tai i Gymru' ac yn seiliedig ar ymchwil gan New Economics Foundation, mae lefel yr anghenion buddsoddi yn llawer mwy na'r £96 miliwn a ddyrannir ar hyn o bryd. Mae ein darparwyr tai cymdeithasol wedi ymrwymo i ddatblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom i ddod â'r argyfwng tai i ben a gwella ein cartrefi presennol wrth i ni weithio tuag at Gymru sero net. Bydd angen digon o gyllid arnynt ar gyfer y ddau nod polisi hyn wrth iddynt weithio tuag at ddarparu cartrefi diogel, addas, cynaliadwy a fforddiadwy ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae angen i ni fabwysiadu dull strategol system gyfan o ymdrin â thai yng Nghymru er mwyn i ni allu sicrhau nad yw amcanion polisi'r llywodraeth yn cystadlu am gyllid. I wneud hyn dylai tai fod yn genhadaeth sylfaenol i'r llywodraeth. Dyna pam, yn ein maniffesto 'Cynllun tai i Gymru', mae CIH Cymru yn galw ar y llywodraeth nesaf i ymwreiddio'r hawl i dai digonol yn neddfwriaeth Cymru. Rhaid i ni fod yn uchelgeisiol a chyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen, gan ei defnyddio fel sbardun a mecanwaith i sicrhau y gall pawb yng Nghymru gyrchu cartref diogel, addas, cynaliadwy a fforddiadwy, gan sicrhau bod tai'n genhadaeth sylfaenol i'r llywodraeth nawr ac yn y dyfodol.

## Mwy o wybodaeth

Bydd CIH Cymru yn parhau i ymgysylltu â phob plaid wleidyddol wrth i'r gyllideb fynd trwy'r Senedd. Os hoffech roi eich barn er mwyn llywio'r gwaith hwn, cysylltwch â'n rheolwr polisi a materion cyhoeddus: cerys.clark@cih.org.

